# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD GWENER, 13EG TACHWEDD, 2015**

Lleoliad

**Y Ganolfan (ger yr Harbwr), Porthmadog**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd: 06:11:15)

# AELODAETH / MEMBERSHIP

**Cyngor Gwynedd**

Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Anne Lloyd Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Angela Ann Russell, Eirwyn Williams, Gethin Glyn Williams ac Owain Williams.

**Cyngor Sir Ceredigion**

Disgwyl am enwebiad

**Cyngor Sir Powys**

Y Cynghorydd J M Williams

Y Cynghorydd Trevor Roberts, Cynrychiolydd Pwyllgor Ymgynghorol Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth, 6 LLys Dedwydd, Abermaw, Gwynedd. LL42 1HP

Mr Dave Thomas, Rail Improvements & Assembly Business Manager, Welsh Assembly Government Rail Unit, Cathays Park, Cardiff. CF10 3NQ

Mr Ben Davies, Stakeholder Liaison Manger / Rheolwr Cysylltiadau Hapddalwyr, Platform 1, Railway Station, Conwy Road, Llandudno Junction, North Wales LL31 9NB

Mr Tim Bell, Arriva Trains Wales, St. Mary's House, Penarth Road, Cardiff.

Mr Dylan Bowen, Network Rail, 5th Floor, 5 Callaghan Square, Cardiff. CF10 5BT

Mr Carl Jones, Network Rail, Machynlleth Station, Machynlleth, Powys.

Mr David Crunkhorn, Service Delivery Manager, Arriva Trains, Machynlleth Station, Machynlleth, Powys. SY20 8BL

Mr Chris Wilson, TraCC, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3UE

Mr Dafydd Wyn Williams, Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon.

Mr Tudur O Williams, Prifathro, Ysgol Ardudwy, Harlech, Gwynedd.

Mrs Helen Lewis, Pennaeth Ysgol Uwchradd Tywyn, Tywyn, Gwynedd.

Pennaeth, Coleg Meirion-Dwyfor, Safle Penrallt, Pwllheli, Gwynedd.

Mrs Clare Britton, Commercial Manager, Ffestiniog Railway, Harbour Station, Porthmadog.

Arglwydd Dafydd Elis Thomas, Aelod y Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd, 7 Bank Place, Porthmadog.

Mrs Liz Saville Roberts, Aelod Seneddol Meirionnydd Dwyfor, Stryd Glyndwr, Dolgellau, Gwynedd.

Mr William Powell, AC Rhanbarthol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd CF99 1 NA

Ms Joyce Watson, AC Rhanbarthol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd.  CF99 1NA

Mr Russel Ian George, AC Rhanbarthol dros Sir Drefaldwyn, 13 Parker's Lane, Y Drenewydd SY16 2LT

Mr Simon Thomas, AC Rhanbarthol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd.  CF99 1NA

Ms Rebecca Evans, AC Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerydd.  CF99 1NA

Mr D Woodhouse,  Aberdyfi and Tywyn Tourism, 8 Ffordd Dyfrig, Tywyn, Gwynedd, LL36 9EH

Mr J Scotson, Chief Executive Officer, Rheilfordd Talyllyn, Wharf Station, Tywyn, Gwynedd.

Mr Roger Goodhew, Shrewsbury – Aberystwyth Passenger Association, 12 Granville Street, Copthorne, Shrewsbury, Shropshire.  SY3 8NE

Mr D L Roberts, Trefri Fawr, Aberdyfi, Gwynedd.  LL35 0LS

Inspector Mark Armstrong / Sgt. Wynne Lane, North Wales Police, Police Station, Dolgellau, Gwynedd.

Sgt. Karl Anderson, British Transport Police, Castle Foregate, Shrewsbury.  SY21 2DQ

PC Rob Newman, British Transport Police, Castle Foregate, Shrewsbury.  SY21 2DQ

Mr David Hern, Regional Transport Planner (Mid Wales) Department for Enterprise, Innovation & Networks, Ladywell House, Newtown, Powys.  SY16 1JB

Mr Delwyn Evans, Meirionnydd Access Group,  5 Islwyn Terrace, Lombard Street, Dolgellau, Gwynedd.

Cyng. Alun Wyn Evans,  Cynrychiolydd Cylch Meirionnydd Un Llais Cymru, Fferm Penllyn, Ffordd Neifion, Tywyn, Gwynedd, LL36 0DP

Cyng. Trefor Jones, Cylch Dwyfor Un Llais Cymru, Talar Deg, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd.

*Disgwyl Enwebiad o Grwp Mynediad Dwyfor / Awaiting Nomination from Dwyfor Access Group*

# R H A G L E N

**1.** **ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am y flwyddyn  2015-16.

**2.** **ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am y flwyddyn 2015/16.

**3.** **YMDDIHEURIADAU**

**4.** **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

**5.** **MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw fater sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**6.** **COFNODION** 1 - 5

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar  24 Ebrill 2015.

**7.** **ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL**

I dderbyn adroddiad gan Mr Dylan Bowen, Network Rail.

**8.** **ADRODDIAD GAN TRENAU ARRIVA CYMRU CYF.** 6 - 8

I dderbyn adroddiad gan Mr Ben Davies, Arriva Trains Wales.

**9.** **ADRODDIAD SWYDDOG RHEILFFORDD Y CAMBRIAN** 9 - 10

I dderbyn adroddiad gan Swyddog Rheilffordd y Cambrian.

**10. ADRODDIAD HEDDLU TRAFNIDIAETH BRYDEINIG** 11

I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd o Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig.

11. **CWESTIYNAU FFURFIOL** 12 - 13

(a) I dderbyn ymateb i'r cwestiynau amgaeedig dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.

(b) Aelodaeth – I drafod cais sydd wedi dod i law y Cadeirydd ynglyn â gwahodd cynrychiolaeth o phob Cyngor Cymuned y mae'r rheilffordd yn rhedeg drwy eu wardiau i wasanaethu ar y Pwyllgor hwn.

14 - 21

# CYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

**Cofnodion cyfarfod Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian a gynhaliwyd yn y Ganolfan, Porthmadog, ar ddydd Gwener, 13 Tachwedd 2015 o 1.00 o'r gloch tan 2.20 pm**

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Annwen Hughes, Anne Lloyd Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Angela A. Russell, Eirwyn Williams, Owain Williams (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Michael Williams (CS Powys), Arglwydd Dafydd Elis Thomas (Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd), Mr David Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Ben Davies (Trenau Arriva Cymru Cyf.), Heddwas Rob Newman (Heddlu Trafnidiaeth Prydain), Mr Philip Sayers (Rheilffordd Talyllyn), Mr Roger Goodhew (Cymdeithas Teithwyr Trenau Amwythig-Aberystwyth), Mr Alun Wyn Evans (Un Llais Cymru (Meirionnydd), Mr D. Woodhouse (Twristiaeth Aberdyfi a Tywyn), Mr Rhydian Mason (Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian), Llinos Roberts (Swyddog Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol), Mr Delwyn Evans (Grwp Mynediad Meirionnydd), Mr Dylan Bowen (Network Rail), Mrs Mererid Watt (Cyfieithydd), Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths, John Brynmor Hughes, Gethin Williams, Mrs Liz Saville Roberts (Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd), Ms Rebecca Evans (Aelod Cynulliad Canolbarth a Gorllewin Cymru), Mr Simon Thomas (Aelod Cynulliad Canolbarth a Gorllewin Cymru), Mr Tudur Williams (Ysgol Ardudwy), Mr Trevor Roberts (Pwyllgor Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd: (a) Ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

**(b) Cyfleu diolch y Pwyllgor i'r Cynghorydd Selwyn Griffiths am ei waith caled yn ei swyddogaeth fel Cadeirydd dros y flwyddyn diwethaf.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd: (a) Ail-ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

**(b) Gofynnwyd i'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams gadeirio'r cyfarfod hwn oherwydd anallu'r Cynghorydd Selwyn Griffiths i fod yn bresennol oherwydd profedigaeth teuluol.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd materion brys i'w trafod.

5. **ADRODDIAD NETWORK RAIL**

Ni chyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan Network Rail ond bu i Mr Dylan Bowen adrodd yn llafar ar ddatblygiadau fel a ganlyn:

(i) Bod Network Rail wedi ysgrifennu i'r rhanddeiliad i'w cynghori y byddai oediad gyda'r gwaith o gwblhau darpariaeth y lifft yng Ngorsaf Machynlleth tan mis Mawrth 2016. Oherwydd rhagolygon y tywydd y penwythnos yma byddai'n amhosibl defnyddio'r craen ac felly hyderir y byddir yn gallu cwblhau'r gwaith erbyn mis Mawrth.

(ii) Mewn ymateb i'r uchod datganodd Aelod siom yn hyn o beth, ac mai dim ond un platfform y gellir ei ddefnyddio ac yn ychwanegol at hyn bod teithwyr yn gorfod disgwyl yng Nghyffordd Dyfi. Wedi dweud hynny, teimlwyd y byddai'r ddarpariaeth pan yn ei le yn welliant aruthrol.

(iii) Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Owain Williams ynglyn â phryder am yr oedi yng Nghyffordd Dyfi yn benodol i deithwyr o Fachynlleth i Bwllheli, eglurodd Mr Bowen o safbwynt uwchraddio y ffordd ar gyfer fforddolion (road-user) byddai Network Rail yn fwy na pharod i gydweithio gyda thrydydd parti mewn darparu cynllun ond y byddai'n mwy manteisiol pe byddai cynllun o'r fath yn cael ei gynnwys mewn cynllun trafnidiaeth ehangach. Pwysleiswyd na fyddai Network Rail yn gyfrifol fel prif yrrwr unrhyw gynllun o safbwynt cyllido ond sicrhawyd y byddent yn cydweithio gydag awdurdodau a chyfeiriwyd at engreifftiau lle gweithredwyd cynlluniau o'r fath mewn darparu meysydd parcio yn Ne Cymru.

(iv) Awgrymwyd y dylid cyfeirio eitem i drafod Cyffordd Dyfi i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth a Phwyllgor Rheilffordd Arfordir y Cambrian sydd i'w gynnal ar 27 Tachwedd 2015 yn Y Plas, Machynlleth.

(v) O safbwynt cwestiwn y Cynghorydd Gethin Williams ynglŷn â gweithredu moratoriwm ar daliadau Pont Abermaw yn ystod y cyfnod cynllunio / atgyweiriadau, nododd Mr Bowen ei fod wedi trafod y mater gyda'r Aelod yn gynharach. Nododd ymhellach bod Network Rail yn yr un sefyllfa â Chyngor Gwynedd o safbwynt gorfod chwilio am arbedion gyda tharged i ddarganfod oddeutu 20% dros y cyfnod nesaf. Fodd bynnag, roedd trafodaethau yn parhau gyda Chyngor Gwynedd ynglyn ag adnewyddu'r Bont gyda'r bwriad o leihau'r costau cynnal a chadw. Ar hyn o bryd roedd yn gynamserol i adrodd yn llawn, ond nodwyd bod trafodaethau cychwynnol yn digwydd rhwng Network Rail â rhanddeiliad perthnasol gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, a CADW.

(vi) Cyfeiriodd Mr David Roberts at bryder ynglŷn â thir ym mherchnogaeth Network Rail a elwir yn Bryn Llestair (Picnic Island) ac roedd yn ymwybodol bod Fforwm Mynediad De Eryri wedi cysylltu gyda Network Rail ynglyn â'r tir ond nad oeddynt wedi derbyn ymateb. Defnyddir y tir gan oddeutu 1,000 o fyfyrwyr o Outward Bound Cymru.

(vii) Mewn ymateb i'r uchod, nododd Mr Bowen nad oedd yn ymwybodol o'r mater ond os gall Fforwm Mynediad De Eryri gysylltu gydag ef a / neu drwy'r Swyddog Cefnogi Aelodau, fe sicrhaodd y byddai'n dilyn y mater i fyny.

(viii) Mynegwyd pryder gan y Cynghorydd Dewi Owen ynglyn a'r gordyfiant enfawr ar dir sydd ym mherchnogaeth Network Rail rhwng wal derfyn yr A493 a'r rheilffordd. Nodwyd bod corneli llym (sharp corners) ar y briffordd dan sylw a bod gwir angen torri'r gordyfiant i osgoi unrhyw ddamweiniau.

(ix) Mewn ymateb i'r uchod, nododd Mr Bowen bod gan Network Rail gynllun rheolaeth llystyfiant a'i fod yn llwyddiannus gan bod diogelwch y rheilffordd yn flaenoriaeth i Network Rail. Awgrymwyd pe byddai'r Aelod yn nodi union leoliadau lle mae'r gordyfiant a'u hanfon ymlaen i'r Swyddog Cefnogi Aelodau iddi ei anfon ymlaen i Mr Bowen i'w ddilyn i fyny. Nodwyd ymhellach bod modd i Aelodau gysylltu gydag unrhyw fater o bryder drwy'r llinell gymorth sydd ar gael 24 awr ac os nad ydynt yn hapus gyda'r ymateb, yna gellir cysylltu'n uniongyrchol a Mr Bowen.

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau gyfeirio y materion uchod i Mr Dylan Bowen, er sylw pellach.**

**(b) Cyfeirio eitem i drafod Cyffordd Dyfi i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth a Phwyllgor Rheilffordd Arfordir y Cambrian sydd i'w gynnal ar 27 Tachwedd 2015 yn Y Plas, Machynlleth.**

## 6. <u>ADRODDIAD GAN DRENAU ARRIVA CYMRU CYF</u>

Cyfeirwyd at yr adroddiad a gyflwynwyd ynghlwm i'r Rhaglen gan Mr Ben Davies, ar ran Trenau Arriva Cymru Cyf a oedd yn cyfeirio at:

- lwyddiannau allweddol gan nodi bod bodlondeb cwsmeriaid ar y lefel gorau (89%) a'r perfformiad yn un o'r rhai gorau gan drenau yn y Deyrnas Gyfunol
- mesuryddion perfformiad - 97.9% a 93.5% o ran dibynadwyedd a phrydlondeb
- buddsoddwyd £45m yn erbyn gofyniad masnachfraint o dim ond £400,000
- gwasanaethau newydd a gwell a oedd yn cynnwys ychwanegu trenau seddi ychwanegol, cyflwyno cynnyrch newydd a chefnogi brosiectau cymunedol
- drosolwg o'r fasnachfraint gan nodi:
    - 2,204 o weithwyr
    - 1,009 milltir o lwybrau teithio
    - 956 o wasanaethau yn cael eu gweithredu y dydd
    - 27.4m o deithiau gan deithwyr y flwyddyn
    - Fflyd o 128 trên
    - 247 gorsaf, 55 ohonynt gyda staff

Cyflwynwyd hefyd daflen ychwanegol i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod.

Ychwanegodd Mr Ben Davies y gwelwyd cynydd o deithwyr ar y trenau yn ystod yr haf eleni a bod hyn yn galonogol o flwyddyn i flwyddyn gyda'r sustem ERTMS yn profi'n llwyddiant.

Gwelwyd wasanaeth newydd o Amwythig i Aberyswyth gyda'r tren 7.00 p.m. on er nad oedd yn stopio ymhob Gorsaf Drên, roedd trafodaethau yn parhau ar gyfer datrys y sefyllfa.

Bu i Mr Trevor Roberts, Is-Gadeirydd Pwyllgor Rheilffordd Amwythig ac Aberyswyth, drafod gyda swyddogion yn Llywodraeth Cymru o safbwynt amserlen sydd yn dderbyniol i bawb.

Cydnabuwyd bod angen i roi ystyriaeth i sefydlu mwy o gysgodfeydd a mwy o feysydd parcio a'r bwriad fyddai cynnal trafodaethau yn lleol.

Mewn ymateb i'r cwynion ynglyn ag arhosiadau hir am gysylltiad yng Nghyffordd Dyfi, esboniodd Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian bod y mater yn derbyn sylw o safbwynt adnabod pa drên sydd yn gorfod aros yn hir er mwyn gallu uniaethu ar gyfer amserlen newydd ar gyfer flwyddyn nesaf.

Tynnwyd y materion canlynol i sylw Mr Ben Davies ac fe sicrhaodd y byddai'n rhoi sylw brys iddynt:

(a) Bod ffenestri'r trenau yn fudr
(b) Cwynion am y toiledau

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r adroddiad a gofyn i Mr Ben Davies ymdrin a phwyntiau (a) a (b) uchod.**

7. **ADRODDIAD SWYDDOG PARTNERIAETH RHEILFFYRDD Y CAMBRIAN**

Cyflwynwyd adroddiad gan Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian yn amlinellu gweithgareddau a weithredwyd ganddo megis:

- Prosiect Ffilm – Help Llaw – ffilm ar gyfer bobl ifanc gydag anghenion arbennig a enillodd wobr ACoRP yn y category "Teithwyr sy'n Bwysig". Roedd y ffilm wedi ei chyflwyno ar gyfer Gwobr Diwydiant Rheilffyrdd y DG. Yn ogystal nodwyd bod trefniadau mewn llaw i'w dangos ac annerch Aelodau San Steffan, Aelodau'r Cynulliad, Arglwyddi ac uwch weision sifil yn y Senedd yng Nghaerdydd a San Steffan.
- Gorsaf Aberystwyth – Shopmobiliy – cytundeb mewn egwyddor i gydweithio gyda CAVO ar gyfer cwrdd a theithwyr tren sydd wedi trefnu sgwter "shopmobility" yng ngorsaf Aberyswyth.
- Ymgyrch Posteri Ysgolion – rhan o raglen ble gafodd disgyblion gyfle i ddyluno poster diogelwch a dangoswyd nifer ohonynt yn y gorsafoedd lleol i'r ysgolion.
- Cyhoeddiadau - ymhelaethwyd ar nifer o engreifftiau i annog defnydd o'r rheilffordd.
- Grwp Gweithredu'r Cambrian – trefnu grwpiau ffocws ac arolygon ynghyd a thrafodaethau gyda Chyngor Cymuned Caersws ar y posibilrwydd i gael trefniant mwy addas i barcio ceir yn yr orsaf.
- Rheilffyrdd Cymunedol Cymru – Cyfarfod gyda'r Gweinidog i weld sut y gall partneriaethau gael mwy o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru

- Gwefan – nodwyd bod nifer yr ymwelwyr yn cynyddu.

Mewn ymateb i sylw wnaed gan Aelod ynglyn a hyrwyddo'r ffilm, nododd y Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian y byddai Trenau Arriva Cymru yn cynorthwyo gyda hyn. Cymerwyd y cyfle i ddiolch i Arglwydd Dafydd Elis Thomas mewn perthynas a threfniadau i ymweld á'r Senedd ar 19 Tachwedd i gyhoeddi'r ffilm.

Ychwanegwyd byddai modd dangos y ffilm i Aelodau'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod nesaf ond yn y cyfamser gellir anfon dolen i'r Swyddog Cefnogi Aelod i'w anfon ymlaen i Aelodau.

Ar ran y Pwyllgor, llongyfarchwyd y Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian am yr holl waith o hybu'r rheilffordd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r adroddiad.**

8. **<u>ADRODDIAD GAN HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDAIN</u>**

Cyflwynodd yr Heddwas Rob Newman grynodeb byr o'r digwyddiadau diweddar gan nodi nad oedd llawer wedi digwydd ar Reilffordd y Cambrian. Roedd mwyafrif o'r achosion a ymdrinwyd a hwy yn droseddau traffig ffyrdd yn bennaf problemau parhaus gyda gyrwyr yn camddefnyddio'r croesfannau rheilffffordd.

Yn lleol, nodwyd achosion o gamddefnydd ar draws croesfan Talwrn Bach, Llanbedr. Deallir bod rhwystrau yn cael eu gosod yn fuan ar y groesfan dan sylw.

Nodwyd bod agoriad Tafarn Wetherspoons ym Mhwllheli wedi effeithio ar nifer teithwyr ar y gwasanaeth 20:12 o Bwllheli i Fachynlleth ar nosweithiau Gwener a Sadwrn. Derbyniwyd rhai adroddiadau gan griwiau'r trenau bod teithwyr wedi eu drifio yn eiriol, yn enwedig mewn perthynas a'r mynediad amser a roddir i'r tren cyn gadael Pwllheli. Byddir yn gweithio'n agos gyda swyddogion Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o Fangor a Rhyl i fonitro unrhyw broblemau pellach.

Nodwyd ymhellach os oes unrhyw broblem ar y rheilffordd / trenau, bod modd i unigolion gysylltu gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig neu anfon neges testun ar y rhif 61016.

Mewn ymateb i adroddiad yr Heddwas, ymfalchiwyd o glywed y bydd rhwystrau yn cael eu rhoi ar groesfan Llanbedr o ystyried bod oddeutu 500 o geir yn teithio o Mochras ar un tro a'i fod yn un o'r gwersyllfeydd mwyaf yn Ewrop.

Mewn ymateb i sylw wnaed gan Aelod ynglyn á Heddwas i fod ar ddyletswydd tu allan i Wetherspoons, Pwllheli, esboniodd Heddwas Rob Newman mai cyfrifoldeb o dan awdurdodaeth Heddlu Gogledd Cymru fyddai hynny ond bod Heddlu Trafnidiaeth Pwllheli yn ceisio targedu problemau yn yr orsaf dren ac ar y tren. Nid oedd yn bosibl iddynt fod ym Mhwllheli pob Nos Sadwrn ond deallir bod camera cylch cyfyng tu allan i'r dafarn.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i'r Heddwas Rob Newman am yr adroddiad.**

9. **CWESTIYNAU FFURFIOL**

(a) Cyflwynwyd dau gwestiwn ysgrifenedig ffurfiol gan Aelodau o'r Gynhadledd ac fe nodwyd bod y swyddogion perthnasol wedi ymdrin ág un o'r rhain yn ystod eu cyflwyniadau. O safbwynt cwestiwn y Cynghorydd Gethin Williams deallir ei fod wedi trafod y mater gyda Mr Dylan Bowen, Network Rail.

(b) Aelodaeth – Cyflwynwyd cais gan Gyngor Tref Penrhyndeudraeth ynghyd a llythyr gan Bwyllgor Meirionnydd o Un Llais Cymru i wahodd pob Cyngor Cymuned a Thref sydd a lein y rheilffordd yn rhedeg drwy eu wardiau i fod yn aelodau o Bwyllgor Rheilffordd Arfordir y Cambrian.

Adroddwyd bod 16 Cyngor Cymuned /Tref ar yr arfordir ac fe restrwyd rhain i'r Pwyllgor. Nodwyd bod rhai Aelodau etholedig lleol Cyngor Gwynedd sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor yn gallu adrodd i'r Cynghorau Cymuned a fynychir ganddynt. Bu i Aelodau etholedig Cyngor Gwynedd, yn dilyn eu penodiadau yn yr etholiad, gael gwahoddiad i ddatgan os dymunent wasanaethu ar y Pwyllgor hwn ai peidio.

Yn dilyn trafodaeth ar y mater, ac yn sgil bod dau aelod o Un Llais Cymru wedi eu henwebu i gynrychioli ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd, awgrymwyd i ofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau anfon rhaglen a chofnodion i Glercod yr 16 Cyngor Cymuned / Tref a phe byddai mater y dymunent godi ym Mhwyllgor Rheilffordd Arfordir y Cambrian, eu bod yn cyfeirio y mater yntai drwy yr Aelod etholedig lleol / y ddau gynrychiolydd Un Llais Cymru a / neu gellir eu gwahodd i'r cyfarfod drwy drefniant gyda'r Cadeirydd.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau:**

**(a) ymateb i lythyr Pwyllgor Ardal Dwyfor a Meirionnydd i gyfleu penderfyniad y Pwyllgor fel amlinellir uchod.**
**(b) i'r dyfodol anfon rhaglen / cofnodion y Pwyllgor i Glercod y Cynghorau Cymuned / Tref isod:**

| **Meirionnydd** | **Dwyfor** |
|---|---|
| **Aberdyfi** | **Porthmadog** |
| **Tywyn** | **Cricieth** |
| **Llangelynnin** | **Llanystumdwy** |
| **Arthog** | **Llannor (Abererch)** |
| **Abermaw** | **Pwllheli** |
| **Dyffryn Ardudwy** | |
| **Llanbedr** | |
| **Llanfair** | |
| **Harlech** | |
| **Talsarnau** | |
| **Penrhyndeudraeth** | |

**CADEIRYDD**

## Trenau Arriva Cymru, Tachwedd 2015

*Cysylltu pobl a chymunedau gyda'r hyn sy'n bwysig iddynt*


## Llwyddiannau allweddol

- Bodlondeb cwsmeriaid ar y lefel gorau a gofnodwyd - 89% (Gwanwyn 2015)
- Perfformiad Eithriadol - yn gyson yn un o'r prif gwmnïau rheilffordd o ran perfformiad gorau gan drenau yn y Deyrnas Gyfunol.
- Buddsoddiad o £45 miliwn ers dechrau'r fasnachfraint yn erbyn £400k o ofyniad contract.
- Un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru, yn cyflogi mwy na 2,000 o bobl ac wedi creu 300 o swyddi ychwanegol ers dechrau'r fasnachfraint.
- Yn ddiweddar, recriwtiwyd 21 o brentisiaid a 13 o hyfforddeion graddedig.

## Mesuryddion Perfformiad Allweddol

1. Mesurau Perfformiad Cyhoeddus (mesurau safonol y diwydiant ar gyfer Dibynadwyedd a Phrydlondeb)

- Dibynadwyedd a phrydlondeb blynyddol ar hyn o bryd yn 97.9% a 93.5%.
- Un o bump prif berfformwyr y diwydiant
- Ail berfformiwr gorau o ran gweithredu ar amser (Trenau yn cyrraedd a gadael cyn pen munud o'r amser nodwyd)





Mae'r graff yn dangos y camau enfawr a wnaed i wella prydlondeb a dibynadwyedd fel rhan o fesur PPM y diwydiant. Rydym yn gyson yn perfformio'n well na'r meincnod a osodwyd ar ddechrau'r masnachfraint oedd yn cynrychioli lefelau perfformiad a ystyriwyd yn heriol ond yn gyraeddadwy ar y pryd.

2. Arolwg Cenedlaethol Teithwyr

- Erbyn hyn mae bodlonrwydd cyffredinol wedi codi i 89%, i fyny 10% o'r adeg pan ddechreuodd y fasnachfraint ac 8% uwchben meincnod y fasnachfraint.
- Mae 31 allan o'r 32 gwahanol faes mesur wedi gwella yn ystod y ddegawd ddiwethaf.

**Bodlonrwydd Cyffredinol ATRhC**




Mae'r Arolwg Cenedlaethol Teithwyr Rheilffordd yn dangos barn cwsmeriaid am y gwaith a wnaed gennym dros y blynyddoedd.

## Buddsoddi yn y Fasnachfraint

Rydym wedi buddsoddi £45 miliwn yn erbyn gofyniad masnachfraint o dim ond £400,000. Mae buddsoddiad TAC yn cynnwys:

- Dros £11m ar ail-wampio trenau (Fflyd Dosbarth 158 a gwasanaethau gaiff eu tynnu gan locos).
- Gorsaf Caer (£2m)
- Peiriant smalio Gyrru Trên (£2m)
- Cyfleusterau gwell i staff (£2m)
- Giatiau tocynnau (£3m)
- 123 Peiriannau gwerthu tocynnau ar draws y rhwydwaith (£5m)
- Depo newydd sbon ym Machynlleth (£3m)
- Turn olwyn newydd (£2m)

- Nifer o brosiectau eraill llai fel gwelliannau i oleuadau gorsafoedd yn werth cyfanswm o £10m
- Rhaglen Genedlaethol i wella Gorsafoedd mewn parterniaeth gyda eraill ac amryfal welliannau ar gyfer hygyrchedd.
- Gwaith ail-wampio sylweddol wedi cynnwys Aberystwyth, Llandudno a'r Rhyl a gorsafoedd newydd yn Nhref Glyn Ebwy, Energlyn a Churchill Park, Abergwaun a Gwdig.

## Gwasanaethau newydd a gwell

Mae TAC yn gyson wedi gweithredu i ychwanegu capasiti a gwella gwasanaethau tra'n gweithio gyda nifer gyfyngedig o fflyd. Rydym yn darparu 20% yn fwy o wasanaethau (65,000 o wasanaethau y flwyddyn) na'r hyn a bennwyd gan y cytundeb masnachfraint ac rydym wedi ychwanegu 525,000 o seddi blynyddol i'r amserlen yn 2012 yn unig. Ychwanegwyd tua 5000 o drenau ychwanegol y flwyddyn ym Mai 2013 ar gyfer Tre- gŵyr ar ôl gwelliannau i'r orsaf gan ailddyblu traphont Llwchwr heb unrhyw gost ychwanegol i'r trethdalwr. Yn 2015, ar gais Llywodraeth Cymru, cafwyd gwasanaethau ychwanegol ar reilffordd Calon Cymru a rheilffyrdd y Cambrian gan ymestyn yr amserlenni i orsaf newydd Tref Glyn Ebwy. Cyflwynwyd dau gynnyrch mticket ffôn glyfar ynghyd â Pheiriannau Gwerthu Tocynnau gyda chymorth fideo cyntaf y DG. Mae TAC yn gefnogwr allweddol i brosiectau cymunedol yn cynnwys Chwaraeon Anabledd Cymru, Felothon Cymru a Hanner Marathon Caerdydd.

## Trosolwg o'r Fasnachfraint

Mae ein rhwydwaith yn ymestyn drwy Gymru a siroedd gororau Lloegr gan ddarparu gwasanaethau lleol a hirbell i gyrchfannau gan gynnwys y prif ddinasoedd fel Abertawe, Caerdydd, Casnewydd, Birmingham, Caer a Manceinion.

- 2,204 o weithwyr
- Dechreuodd y fasnachfraint yn Rhagfyr 2003 am 15 mlynedd
- 1,009 milltir o lwybrau teithio
- 956 o wasanaethau yn cael eu gweithredu y dydd
- 27.4 miliwn o deithiau gan deithwyr y flwyddyn
- Fflyd o 128 trên
- 247 gorsaf, 55 ohonynt gyda staff

*Pobl angerddol a balch sy'n darparu gwasanaeth ardderchog - bob tro.*

# Eitem 9

PARTNERIAETH RHEILFFYRDD Y
CAMBRIAN
RAILWAYS PARTNERSHIP

## Adroddiad SDRh 06/11/15:

**Help Llaw – prosiect ffilm:**
Ers y cyfarfod diwethaf rydym yn awr wedi cwblhau ein prosiect mawr am eleni sef ffilm Help Llaw / *Helping Hand* i bobl ifanc gydag anghenion arbennig. Roedd hon ar restr fer ar gyfer gwobr ACoRP yn y Categori 'Teithwyr sy'n Bwysig' ac er mawr fwynhad i ni fe enillodd y wobr.

Mae'r ffilm hefyd wedi ei chyflwyno ar gyfer Gwobrau Diwydiant Rheilffyrdd y DG, noson wobrwyo gorfforaethol genedlaethol, ac os yw'n llwyddo bydd cyfleoedd pellach i'r bartneriaeth o ran effaith gadarnhaol a phell-gyrhaeddol y ffilm ei hun ac ar gyfer ein prosiectau a'n cyhoeddiadau eraill.

Yn ychwanegol at hyn, yn ystod ein cyfarfodydd gyda'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas fe gytunodd i roi cyfleoedd i ni (fel noddwr) fel ein bod yn gallu dangos y ffilm ac annerch aelodau o senedd San Steffan, aelodau'r cynulliad, arglwyddi ac uwch weision sifil yn y Senedd yng Nghaerdydd a Phalas San Steffan yn Llundain. Mae'r trefniadau ar gyfer hyn yn mynd rhagddynt rhyngof i a swyddfa'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas.

Dangoswyd y ffilm erbyn hyn i nifer o fudiadau a grwpiau ac rydym wedi cael ymateb arbennig o gadarnhaol.

**Gorsaf Aberystwyth - Shopmobility**
Gan barhau gyda thema mynediad, rwyf wedi bod yn gweithio gyda CAVO ar wella mynediad i 'Shopmobility' yng Ngorsaf Aberystwyth. Drwy gydweithio gyda David Crunkhorn mae gennym ddechreuad cytundeb mewn egwyddor i gael man cyfarfod 'shopmobility' penodol yng ngorsaf Aberystwyth. Bydd teithwyr trên sydd wedi trefnu sgwter 'shopmobility' ymlaen llaw yn cael eu cyfarfod yn yr orsaf yn y man a bennwyd a rhoddir cyfarwyddiadau iddynt ar ddefnyddio'r sgwter mewn amgylchedd sych/dan do. Rydym hefyd yn edrych ar y cyd gyda TAC yn lleol a CAVO ar yr opsiwn o fedru cadw un neu fwy o'r sgwteri mewn safle ychwanegol penodol.

**Ymgyrch Posteri Ysgolion**
Rwyf wedi bod yn cynorthwyo Phil Caldwell o TAC gyda Ymgyrch Posteri Ysgolion sef ffrwyth rhaglen maes ysgolion a ddechreuodd gyda'r ffilm gyntaf a gynhyrchwyd gan PRhC – '*First Class Safety'*. Roedd y posteri yn rhan o raglen ble cafodd bob disgybl y gwaith o ddylunio poster diogelwch a dangoswyd nifer ohonynt yn y gorsafoedd oedd yn lleol i'r ysgolion.

**Cyhoeddiadau:**
Mae gwaith paratoi wedi dechrau ar daflen Amwythig i annog defnyddio Amwythig fel canolfan reilffordd i gael dyddiau allan ar drên y Cambrian, Calon Cymru a lein Caer. Arweinir hyn gan PRhC ac rydym yn dechrau ar y broses o adnabod syniadau ar gyfer 'dyddiau ar y trên' ar bob un o'r leiniau a hefyd i gael awgrymiadau ar beth i'w wneud yn ystod gyda'r nos yn Amwythig. Rwyf eisoes wedi cyfarfod gyda Tim King o 'Shropshire Tourism', David Edwards o HOWL a Sheila Dee o lein Amwythig Caer i drafod y prosiect yma ac rydym i gyd wedi cytuno y bydd hyn yn enghraifft ardderchog o brosiect ar y cyd rhwng ein sefydliadau.

O edrych ymlaen, rwyf yn raddol yn casglu gwybodaeth i lunio taflen i ymwelwyr/twristiaid ar sail Traethau a Chestyll - bydd hyn yn clymu i fewn i raddau gyda thema 'Blwyddyn Antur' Croeso Cymru. Rwyf wedi cael copïau o daflenni rheilffyrdd o Ffrainc sy'n effeithiol iawn yn hyrwyddo cyrchfannau gyda thraethau a chestyll (wedi ei anelu at dwristiaid) a charwn feddwl y byddem yn gallu llunio ein fersiwn ein hunain o'r ymgyrch yma, o gofio am y traethau a'r cestyll ardderchog sydd gennym yn yr ardal.

**Grŵp Gweithredu'r Cambrian:**
Fel rhan o'n gwaith gyda'r grŵp a gafodd ganiatâd gan y Gweinidog, rwyf wedi bod yn rhan o drefnu grwpiau ffocws ac arolygon yn ystod mis Hydref. Cyflwynir canlyniadau'r grwpiau ffocws a'r arolygon maes o law unwaith fo'r Gweinidog wedi cael golwg arnynt.

Rwyf hefyd yn delio gyda Chyngor Cymuned Caersws gan edrych ar y posibiliadau i gael trefniant mwy addas i barcio ceir yn yr orsaf ac mae'r Grŵp Gweithredu yn rhan o hyn.

**Rheilffyrdd Cymunedol Cymru**
Rwyf i ynghyd â fy nghydweithwyr ar leiniau eraill yng Nghymru wedi cyfarfod gyda'r Gweinidog ym mis Hydref i weld sut y gallai'r partneriaethau gael mwy (neu well) cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cyfarfod yn un cadarnhaol iawn ac rydym yn cydweithio ar adroddiad i'r Gweinidog i amlinellu sut y gallai Rheilffyrdd Cymunedol yng Nghymru fod yn fwy amlwg mewn unrhyw drefniant masnachfraint yn y dyfodol.

**Gwefan**
Mae nifer yr ymwelwyr â'r wefan yn parhau i gynyddu gyda'r mwyafrif yn dod drwy Facebook a dolenni Twitter.

Gyda diolch am eich cefnogaeth.

Rhydian.

**Adroddiad i Bwyllgor Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian**

**13eg Tachwedd 2015**

Eleni, unwaith eto, gwelwyd gostyngiad amlwg yn y rhan fwyaf o fathau o droseddau ar lein Arfordir y Cambrian.

Roedd mwyafrif yr achosion a ddeliwyd gyda hwy yn Droseddau Traffig Ffyrdd, yn bennaf problemau parhaus gyda gyrwyr yn camddefnyddio'r croesfannau rheilffordd. Yn ystod y cyfnod o Ebrill i Hydref 2015, cyflwynwyd Hysbysiadau Cosb Penodedig i ddeg o droseddwyr gan eu dirwyo am £100 ac o ganlyniad rhoddwyd tri phwynt cosb ar eu trwyddedau gyrru.

O'r nifer yma, roedd chwech yn gamddefnyddio mwy difrifol oedd yn golygu iddynt gael eu delio o dan y drosedd o Yrru Diofal, roedd tri am yrru ar draws croesfan Talwrn Bach yn Llanbedr pan roedd y trenau yn aros ger platfform yr orsaf. Nid oedd y tri gyrrwr yn dod o'r ardal a defnyddiwyd yr esgus eu bod yn credu ei bod hi'n ddiogel croesi gan fod y trên yn aros yn yr orsaf, neu nad oeddent yn gwybod sut i ddefnyddio croesfan heb rwystrau.

**Mae goleuadau coch yn golygu ARHOSWCH. A dyna ni!**

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae'n ymddangos fod y trafferthion hanesyddol ar y trên olaf o Aberystwyth i Amwythig am 19:30 ar nos Sadwrn wedi peidio, ond gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer y teithwyr ar y trên cyffelyb o Amwythig i Aberystwyth yn enwedig rhwng Amwythig a'r Drenewydd. Mae Heddlu TP yn Amwythig yn cadw golwg ar hyn i atal unrhyw achosion o ymddygiad anghymdeithasol. Roedd y trenau olaf o'r Amwythig i'r Drenewydd ar nos Wener a nos Sadwrn cyn Nadolig y llynedd yn brysur ac yn swnllyd, ac felly mae'n ymddangos fod y tueddiad o deithio ar y penwythnos i Aberystwyth wedi newid i Amwythig. Bydd Heddlu TP, Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gorllewin Mersia yn cyd-weithio ac yn cadw golwg ar hyn dros y Nadolig.

Mae agor tafarn JD Wetherspoons gyferbyn â'r orsaf ym Mhwllheli wedi effeithio ar nifer y teithwyr ar y gwasanaeth 20:12 o Bwllheli i Fachynlleth ar nosweithiau Gwener a Sadwrn. Cafwyd rhai adroddiadau gan griwiau'r trenau yn dweud fod teithwyr wedi eu difrïo yn eiriol, yn enwedig mewn perthynas â'r mynediad amser a roddir i'r trên cyn gadael Pwllheli.

Mae hyn yn annerbyniol a byddwn yn gweithio'n agos gyda swyddogion Heddlu TP o Fangor a'r Rhyl i fonitro unrhyw broblemau pellach. Dylai'r teithwyr fedru cwblhau eu taith a dylai gweithwyr y trenau fedru ymgymryd â'u dyletswyddau heb ofn, braw na thrais gan deithwyr meddw afreolus.

Yn ystod y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig, byddwn yn ceisio plismona cymaint o'r trenau hyn o ran ymddygiad anghymdeithasol â phosib, o gofio cyfyngiadau ardal ddaearyddol fawr a'r galwadau eraill ein gwasanaeth.

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

A fyddai Network Rail yn ystyried gweithredu moratoriwm ar daliadau Pont Abermaw yn ystod y cyfnod cynllunio / atgyweiriadau?

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: Cynghorydd Gethin Williams

……………………………………………………………………………………..

**I'w dychwelyd i / To be returned to:** **Glynda O'Brien**
**Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu**
**Cyngor Gwynedd**
**Cae Penarlag**
**DOLGELLAU**
**Gwynedd. LL40 2YB**

**Erbyn / By:** **02.11.15**

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

PA GAMAU YDYCH AM GYMERYD I HWYLUSO'R FFORDD MAE TRENAU'N RHEDEG RHWNG ABERYSTWYTH – YN ARBENNIG O FACHYNLLETH / DOVEY JUNCTION I BWLLHELI, – GAN FOD YR OEDI A'R DISGWYL AM GYSWLLT (CONNECTION) YN ANNERBYNIOL

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

YR UN CWESTIWN

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

YR UN CWESTIWN

Oddiwrth / From: CYNGHORYDD OWAIN WILLIAMS

(ARWEINYDD LLAIS GWYNEDD)

**I'w dychwelyd i / To be returned to:** **Glynda O'Brien**
**Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu**
**Cyngor Gwynedd**
**Cae Penarlag**
**DOLGELLAU**
**Gwynedd. LL40 2YB**

**Erbyn / By:** **02.11.15**

# CYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

## ERTHYGLAU CYMDEITHASIAD

1. **Enw a Chyfansoddiad**

(a) Gelwir y Pwyllgor yn "Bwyllgor Cyswllt Lein Arfordir y Cambrian" (a elwir yma wedi hyn "y Pwyllgor")

(b) Bydd y cyfansoddiad fel y'i nodwyd yn yr Atodlen sydd ynghlwm yma.

2. **Amcanion**

Amcanion y Pwyllgor fydd:

(a) Dosbarthu gwybodaeth ynglŷn â lein Arfordir y Cambrian rhwng Machynlleth a Phwllheli (a elwir yma wedi hyn "Y Lein")

(b) Sicrhau cefnogaeth ariannol tymor-hir i'r lein.

(c) Sicrhau gwelliannau i'r gwasanaeth tren.

(c) Annog fwy o ddefnydd o'r lein.

(d) Ystyried cwynion ynglyn â'r lein.

(e) Amcanion eraill a fo'n gysylltiedig â'r lein y gall y Pwyllgor benderfynu arnynt o dro i dro.

3. **Cyfarfodydd**

(a) Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn y Gwanwyn a Hydref bob blwyddyn ac ar unrhyw adeg arall a bennir gan y Cadeirydd. Yn ychwanegol, cynhelir cyd-gyfarfod blynyddol ym mis Gorffennaf gyda Pwyllgor Ymgynghorol Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth sydd i'w drefnu a'i gynnal bob yn ail gan Gynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian.

(b) Cynhelir y gweithgareddau yn unol â Rheolau Sefydlog Cyngor Gwynedd cyn belled ag y bônt yn berthnasol.

(c) Penodir Cadeirydd ac Is-gadeirydd bob blwyddyn yng nghyfarfod a gynhelir yn yr Hydref.

(ch) Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn Y Ganolfan, Porthmadog, oni bai bod y Cadeirydd yn penderfynu fel arall.

(d) Pennaeth Democrataidd, Cyngor Gwynedd, fydd yn galw ac yn paratoi cofnodion y cyfarfodydd.

4. **Aelodau Cyfetholedig**

Gall y Pwyllgor gyfethol unigolion neu gynrychiolwyr cwmnïau, sefydliadau, Cynghorau Cymuned, naill ai yn aelodau parhaol o'r Pwyllgor neu am gyhyd ag y pennir gan y Pwyllgor.

5. **Diwygiadau**

Gellir diwygio'r Erthyglau hyn ar unrhyw adeg trwy fwyafrif syml gan yr aelodau a fydd yn bresennol ac yn pleidleisio.

6. **Ymddiswyddiadau**

Gall unrhyw aelod o'r Pwyllgor ymddiswyddo ar unrhyw adeg neu newid ei gynrychiolydd(wyr) trwy roi rhybudd i'r Pennaeth Democrataidd, Cyngor Gwynedd.

**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**ARTICLES OF ASSOCIATION**

1. **Name and Constitution**

(a) The Committee shall be called the "Cambrian Coast Line Liaison Committee" (hereinafter called "the Committee).

(b) The constitution shall be as set out in the Schedule hereto.

2. **Objectives**

The objectives of the Committee shall be:

(a) To disseminate information regarding the Cambrian Coast Line between Machynlleth and Pwllheli (hereinafter called "the Line").

(b) To obtain long-term financial security for the line.

(c) To seek improvements to the train service.

(d) To encourage greater use of the line.

(e) To consider complaints regarding the line.

(f) Such other objectives connected with the line on which the Committee may from time to time determine.

3. **Meetings**

(a) The Committee shall meet each Spring and Autumn in each year and at such other time as the Chairman shall determine. Additionally, in July each year there shall be a joint meeting with the Shrewsbury-Aberystwyth Railway Committee to be hosted in alternate years by the Cambrian Coast Railway Liaison Conference.

(b) The proceedings shall be conducted in accordance with the Standing Orders of Gwynedd Council insofar as they are applicable.

(c) A Chairman and Vice-Chairman shall be appointed at the Autumn meeting each year.

(ch) The Committee shall meet at Y Ganolfan, Porthmadog, unless the Chairman determines otherwise.

(d) The meetings shall be convened and minuted by Committee Officers within the Democratic Services of Gwynedd Council.

4. **Co-oped Members**

The Committee may co-opt individuals or representatives of companies, organisations or Community Councils either as permanent members of the Committee or for such term as the Committee may determine.

5. **Amendments**

These Articles may be amended at any time by a single majority of members present and voting.

6. **Resignation**

Any member of the Committee may resign at any time or change its representative(s) by giving notice to the Head of Democratic Services, Gwynedd Council.

## ATODLEN – CYFANSODDIAD

| | |
|---|---|
| 10 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd : | 5 o ardal Dwyfor<br>5 o ardal Meirionnydd |

1 aelod etholedig o Gyngor Ceredigion

1 aelod etholedig o Gyngor Powys

1 cynrychiolydd o Ysgol Ardudwy

1 cynrychiolydd o Ysgol Uwchradd Tywyn

1 cynrychiolydd o Goleg Meirion-Dwyfor

1 cynrychiolydd o Rheilffordd Talyllyn

1 cynrychiolydd o Rheilffordd Ffestiniog

1 cynrychiolydd o Rheilffordd Fairbourne

1 cynrychiolydd o Rheilffordd Fach Ucheldir Cymru (1964) Cyf

1 cynrychiolydd o’r Rheilffordd Rhanbarthol

1 cynrychiolydd o Bwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Trafnidiaeth

Aelod Seneddol Meirionnydd/Dwyfor

Aelod Cynulliad Meirionnydd/Dwyfor

Aelodau Cynulliad Rhanbarthol dros y Canolbarth a Gorllewin Cymru

1 cynrychiolydd o Gynhadledd Gyswllt yr Amwythig/Aberystwyth

1 cynrychiolydd o Bwrdd Croeso Cymru

1 cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru

2 cynrychiolydd o Un Llais Cymru (un o ardal Dwyfor ac un o ardal Meirionnydd)

1 cynrychiolydd o Grwp Mynediad Meirionnydd

1 cynrychiolydd o Grwp Mynediad Dwyfor

Gall unrhyw awdurdod lleol/sefydliad/corff sy'n aelod ac a enwir uchod, enwebu dirprwy i fynychu (gyda hawl pleidleisio) yn absenoldeb unrhyw un o'i aelodau etholedig neu unrhyw un o'i gynrychiolwyr.

Gall **swyddogion** yr awdurdodau lleol/sefydliad/cyrff sy'n aelodau ac a enwir uchod, fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor gyda'r hawl i siarad ond nid i bleidleisio.

**SCHEDULE – CONSTITUTION**

10 elected members of Gwynedd Council : 5 representing the Dwyfor area
5 representing the Meirionnydd area

1 elected members of Ceredigion Council

1 elected member of Powys Council

1 representative of Ysgol Ardudwy

1 representative of Ysgol Uwchradd Tywyn

1 representative of Coleg Meirion-Dwyfor

1 representative of Talyllyn Railway

1 representative of Festiniog Railway

1 representative of Fairbourne Railway

1 represenative of Welsh Highland Light Railway (1964) Ltd

1 representative of Regional Railways

1 representative of the Transport Users Consultative Committee

Assembly Member for Dwyfor / Meirionnydd

Member of Parliament for Dwyfor/ Meirionnydd

Regional Assembly Members for Mid and West Wales

1 representative of the Shrewsbury/Aberystwyth Liaison Committee

1 representative of the Wales Tourist Board

1 representative of the Chamber of Trade / Commerce

1 representative from the North Wales Police Authority

2 representatives from One Voice Wales (one from the Dwyfor area and one from the Meirionnydd area)

1 representative from Merioneth Access Group

1 representative from Dwyfor Access Group

Each constitute local authority / organisation / body listed above may nominate a deputy to attend (with power to vote) in the absence of any of its elected members or representatives.

Officers of the constitute local authorities / organisations / bodies listed above may attend meetings of the Committee with the right to speak but not vote.